YMWELIAD
DATBLYGU
MASNACH

# Norwy a Denmarc

PRYD
**Medi'r 17-22 2023**

SECTORAU
ALLWEDDOL
**Bwyd a Diod**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## PAM NORWY A DENMARC?

Gyda rhai o'r Cynnyrch Gros Domestig uchaf y pen ledled y byd, mae gan y gwledydd Nordig farchnad wych ar gyfer cynnyrch artisan, arbennig, o safon.

Dydy Norwy ddim yn aelod o'r UE ond maen nhw'n aelod o'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd. Mae yna gytundeb fasnach rydd ar waith gyda'r Deyrnas Unedig, gan sicrhau bod masnachu rhwng y ddwy wlad yn fwy rhwydd. Mae'r farchnad yn flaenllaw o ran technoleg ac mae mwyfwy o ddiddordeb mewn defnydd cyfrifol a chynnyrch iach a chynaliadwy ynghyd â galw cynyddol am gynnyrch bwyd a diod rhyngwladol.

Mae Denmarc yn aelod o'r UE, gan feddu ar economi cyfoethog, addysgedig ac agored, sy'n barod i dderbyn cynnyrch a buddsoddiadau o'r DU. Mae'r Daniaid yn brynwyr soffistigedig gydag enw da am dalu cyflenwyr yn brydlon. Mae'r wlad yn cynnig modd i ymwneud yn rhwydd gyda'r gwledydd Sgandinafaidd a Baltig ynghyd ag economïau'r Almaen a Gwlad Pwyl sy'n prysur dyfu. At hynny, dydy'r monopoli wladwriaeth ar gynnyrch diod sydd mewn grym mewn gwledydd Nordig eraill ddim yn berthnasol i farchnad Denmarc.

***Mae busnesau bwyd a diod Cymru eisoes yn gwerthu cynnyrch i'r marchnadoedd hyn ac maen nhw'n cynnig adborth cadarnhaol.***

---

## Y CATEGORÏAU GALLAI FOD FWYAF LLWYDDIANNUS?

Mae ein harbenigwyr marchnad o'r farn y gallai'r categorïau canlynol fod â photensial arbennig:

- Bwydydd o Safon
- Cynnyrch Organig/ 'Di-glwten a heb laeth' ac ati
- Diodydd meddwol a chwrw
- Diodydd heb alcohol

**Os oes gennych chi'r cynnyrch hyn, hoffem siarad gyda chi!**

---

## BETH I'W DDISGWYL?

Bydd y canlynol ynghlwm ag Ymweliad Datblygu Masnach i'r Gwledydd Nordig:

- Gweminar marchnad
- Ymgynghoriadau gydag ymgynghorydd sy'n rhan o'r farchnad
- Cenhadaeth fasnach i'r farchnad
- Teithio wedi'i drefnu, *bydd cost i gymryd rhan (mwyafswm o 2 gynrychiolydd o bob busnes)*
- Cyfarwyddyd ynghlwm â'r farchnad gyda siaradwyr allweddol
- Rhaglen ymweld â siopau
- Amserlen cyfarfodydd ynghlwm â'r farchnad gyda phrynwyr
- Gweithgaredd rhwydweithio
- Ymweliad i sioe fasnach briodol (os oes un ar ddyddiad cyfleus)
- Cymorth / cyfieithu ynghlwm â'r farchnad

## BETH YDY'R DYDDIADAU ALLWEDDOL?

Dyddiad cau'r cais:
**23 Mehefin 2023**.

Cyfarfodydd Rhithiol 1-i-1 gyda'r tîm farchnad penodedig yn ystod yr wythnos sy'n **dechrau ar 3 Gorffennaf 2023**.

Bydd Cyfarwyddyd Marchnad rithiol ar gychwyn mis **Medi 2023**.

Bydd yr ymweliad wyneb yn wyneb yn ystod diwedd **17-22 Medi 2023**.

## PWY SY'N GYMWYS I FANTEISIO AR YR YMWELIAD DATBLYGU MASNACH HWN?

Gallai'r holl gynhyrchwyr Bwyd a Diod sy'n gweithredu yng Nghymru ymgeisio i fod yn rhan o'r Ymweliad Datblygu Masnach hwn.

---

## BETH YDY'R GOST?

Cost yr Ymweliad Datblygu Masnach hwn ydy **£1,500.00 heb gynnwys TAW**. *Mae posibilrwydd hefyd i ymweld ag un o'r marchnadoedd yn unig.*

---

## SUT I YMGEISIO?

Dilynwch y ddolen hon i gwblhau'r ffurflen gais ar-lein :

https://kineticcubed.formstack.com/forms/food_and_drinks_wales_trade_development_visits_2023_nordics

WG47786 / © Hawlfraint y Goron 2023